**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD MERCHER, 6 IONAWR 2021 DYDD MERCHER, 6 IONAWR 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. HILL (CADEIRYDD)

Councillors G. A. Davies (Is-gadeirydd)
M. Cross
M. Cook
H. McCarthy
K. Hayden
S. Healy
W. Hodgins
J. C. Morgan
J. P. Morgan
B. Willis

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L. Parsons. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Cyfarfod Pwyllgor Adfywio a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2020.<br><br>*<u>Ymweliad i Ffatri Wydr yn Nhwrci</u>*<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 19 y cofnodion a gofynnodd am gyngor ar p’un ai a ddylai’r Cadeirydd fod wedi datgan buddiant gan iddo fod ar yr ymweliad, ac felly na ddylai fod wedi cymryd rhan yn y broses pleidleisio.<br><br>Dywedodd y Swyddog/Cynghorydd Craffu y cafwyd cyngor cyfreithiol yn dweud mai dim ond pan oedd adroddiad ar yr agenda yn cael ei drafod y mae angen datgan buddiant. Gan nad oedd y Flaenraglen Gwaith ond yn rhestru eitemau i’w hystyried yn y cyfarfod nesaf, nid oedd angen i’r Cadeirydd ddatgan buddiant.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau’r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 2 RHAGFYR 2020</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2020, yn cynnwys:<br><br>*<u>Cynllun Rheoli Cyrchfan</u>*<br><br>Mynegodd Aelod bryder y cafodd y Canllaw i Flaenau Gwent ei argraffu a’i gylchredeg cyn iddo gael ei ystyried gan Aelodau.<br><br>Gofynnodd Aelod arall pryd y byddai’r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cael ei ailgyflwyno i’r Pwyllgor Craffu ei ystyried, a dywedodd y Cadeirydd y byddai’n ymchwilio.<br><br>*<u>Blaenraglen Gwaith (Defnyddio Ymgynghorwyr yng nghyswllt y portffolio Adfywio – cost ymgynghorwyr buddion/deilliannau defnyddio ymgynghorwyr allanol dros y 2 flynedd ddiwethaf)</u>*<br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr adroddiad a drefnwyd i’w gyflwyno ar 10 Chwefror 2021 am gost ffioedd ymgynghori dros y 2 flynedd ddiwethaf, a dywedodd y dylid ymestyn hyn ymhellach i gynnwys ffioedd ymgynghori dros y 5 mlynedd ddiwethaf. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunodd Aelod arall a dywedodd y byddai hyn yn rhoi trosolwg mwy cynhwysfawr.<br><br>Dywedodd Aelod mai'r rheswm am ofyn am yr wybodaeth oedd mewn ymateb i ffigurau a adroddwyd i'r Cyngor am y 2 flynedd ddiwethaf. Dywedodd fod swyddogion wedi gwneud llawer o waith i gasglu'r wybodaeth ac y byddai ymestyn hyn ymhellach yn rhoi pwysau ychwanegol ar Swyddogion.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan ddywedodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu fod Swyddogion eisoes wedi gwneud y gwaith yn seiliedig ar gyfnod o 2 flynedd. Cafodd yr wybodaeth ei rhoi ynghyd ac mae'r adroddiad wrthi'n mynd drwy'r broses berthnasol cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar 10 Chwefror 2021. Dywedodd y Swyddog y byddai ymestyn hyn i gynnwys y 5 mlynedd ddiwethaf yn golygu gwaith ychwanegol sylweddol.<br><br>Dywedodd Aelod na ddeallai pam y gofynnwyd am estyniad gan fod y Pwyllgor Craffu eisoes wedi cytuno ar 2 flynedd a bod Swyddogion eisoes wedi gwneud y gwaith.<br><br>Cytunodd Aelod arall a dywedodd y dylai'r Pwyllgor barhau gyda'r cyfnod 2 flynedd, yn arbennig yng ngoleuni sylw'r Swyddog. Fodd bynnag, yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad, gellid gofyn am adroddiad pellach bryd hynny os oes angen gwybodaeth ychwanegol.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd, gan roi ystyriaeth i sylwadau'r Swyddog, y byddai'r Pwyllgor yn parhau gyda'r adroddiad dros y 2 flynedd diwethaf.<br><br>*Blaenraglen Gwaith (cynnydd a gwariant Cwm Technoleg)*<br><br>Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu y gallai'r cyfarfod arbennig fod yn gyfarfod ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru gan mai nhw sy'n gyfrifol am reoli llawer o'r prosiectau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **ADRODDIAD CYNNYDD – RHAGLEN BUDDSODDIAD ADFYWIO WEDI'I DARGEDU A CHYNLLUN CYLLID AD-DALADWY CANOL TREFI** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y sefyllfa bresennol gyda'r Rhaglen Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu (TRI) a Chynllun Cyllid Ad-daladwy Canol Trefi , ac yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio ar 5 Mawrth 2020. Sefydlwyd y rhaglen TRI yn 2018 a bwriedid iddi'n wreiddiol fod yn rhaglen tair blynedd (2018-2021). Am gyfnod tair blynedd gyntaf rhaglen TRI roedd cyllideb gyfalaf o £100 miliwn ar gael yng Nghymru, gyda dyraniadau cyllid yn dibynnu ar ansawdd y prosiectau, arwyddocâd rhanbarthol a chymeradwyaeth y Panel Cenedlaethol. Ni fyddai cyllid TRI yn cael ei ddyrannu'n gyfartal yn awtomatig ar gyfer pob un o ddyraniad y deg awdurdod lleol. Roedd y dyraniad ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru yn £44 miliwn.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm fod yr adroddiad a gyflwynwyd ar 5 Mawrth 2020 yn dweud y bu cynnig am £5 miliwn o gyllid cyfalaf gan Dasglu'r Cymoedd i ymestyn Prosiect Thematig TRI Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ardaloedd Tasglu'r Cymoedd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, dywedwyd ers hynny na fyddai'r cyllid hwn ar gael mwyach gan Dasglu'r Cymoedd ond y byddai cwmpas i gynnwys prosiectau a gyflwynwyd ar gyfer y cyllid hwn o fewn rhaglen thematig bresennol TRI.<br><br>Aeth y Swyddog wedyn drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Dywedodd fod 91 Datganiad Diddordeb wedi dod i law fel ar 7 Rhagfyr 2020 ac aethpwyd ymlaen â 4 cais i'r cam cyflenwi ar gyfanswm cost o £44,731. Yn nhermau nifer isel yr ymholiadau a aeth ymlaen i gael eu cyflenwi, roedd nifer o resymau am hyn sef:<br><br>• Ni fedrir defnyddio'r cyllid i dalu am waith oedd eisoes wedi ei gwblhau cyn i'r grant fod ar gael neu i gymeradwyaeth cyllid fod yn ei le<br>• Dim ond ar gyfer busnesau yn un o'r canol trefi (Glynebwy, Tredegar, Brynmawr, Abertyleri a Blaenau) y gellid defnyddio'r cyllid; a<br>• Dim ond ar gyfer mesurau allanol i gefnogi adferiad busnes (seddi awyr agored, canopïau) y gellir defnyddio'r cyllid.<br><br>Dywedodd y Swyddog hefyd y sicrhawyd cyllid i ddatblygu cynllun | |

| | | |
|---|---|---|
| | Creu Lle ar gyfer Tredegar. Fodd bynnag, bydd caffaeliad ar hyn ym mis Rhagfyr gyda'r comisiwn yn dechrau ym mis Ionawr 2021. Caiff y cynllun ei gyflawni'n defnyddio'r un dull â Chynllun Chreu Lle Glynebwy.<br><br>Gofynnodd Aelod os oedd ad-daliadau benthyciadau'n cael eu derbyn yn gyson a pha gamau y gellid eu cymryd os oedd taliadau'n cael eu colli.<br><br>Dywedodd y Swyddog, os oedd yr ymgeisydd wedi dewis taliad misol drwy ddebyd uniongyrchol ac y collid taliad, y byddent yn cysylltu â nhw ar unwaith a rhoi cyfle iddynt dalu. Fodd bynnag, os yw taliadau'n parhau i gael eu colli byddai ein gweithdrefnau arferol ar gyfer casglu dyledion yn dechrau. Esboniodd y Swyddog hefyd mai un o amodau'r cytundeb benthyciad dechreuol oedd pridiant cyfreithiol ar yr eiddo i'w hatal rhag gwerthu heb ganiatâd/cytundeb yr Awdurdod a byddai hyn yn ein galluogi i fynd drwy'r sianeli cyfreithiol priodol i adhawlio'r cyllid. Dywedodd y Swyddog fod hon yn broses hirfaith ond yn ffodus ni fu ei hangen hyd yma.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn falch gyda'r adroddiad a dywedodd pan ddyfarnwyd cyllid o fewn Canol Tref Tredegar y sefydlwyd grŵp ymgynghori yn cynnwys masnachwyr, Aelodau ward, Cyngor y Dref ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo. Dywedodd y bu'r dull hwn yn llwyddiannus iawn a bod perthynas waith ardderchog o fewn canol y dref a byddai'n hapus i drafod hyn gyda Swyddogion.<br><br>Dywedodd y Swyddog y gwyddai am y gwaith rhagorol a gafodd ei wneud a dywedodd y gallai fod yn fanteisiol i'r Aelod fynychu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tredegar i drafod y dull gweithredu a gymerwyd yn Nhredegar.<br><br>Gofynnodd Aelod arall os byddai'n bosibl cael rhestr o brosiectau a dderbyniodd arian, ac atebodd y Swyddog y byddai'n cylchredeg yr wybodaeth yma i Aelodau.<br><br>Wedyn cyfeiriodd Aelod at adran 2.3 yr adroddiad sy'n amlinellu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer adeiladau masnachol a gwelliannau preswyl yng nghanol trefi, a mynegodd bryder y gall hyn arwain at golli safleoedd masnachol.<br><br>Esboniodd y Swyddog, er fod y rhain yn ddau grant ar wahân, fod rhai cynlluniau fydd â gwelliannau masnachol ar y llawr daear, | |

ynghyd â gwelliannau preswyl ar y lloriau uchaf. Fodd bynnag, caiff cadw’r llawr daear ar gyfer dibenion masnachol ei annog gymaint ag sy’n bosibl, yn arbennig yng nghanol trefi.

Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu fod darpariaeth tai o fewn canol trefi yn dod o fewn ein cynlluniau datblygu sy’n amlinellu’r gofynion yn nhermau sicrhau tai digonol i annog nifer y bobl yng nghanol y trefi, ond hefyd yn rhoi digon o ofod masnachol i barhau’n ganol tref. Caiff pob cais ei ystyried ar ei haeddiant; fodd bynnag mae’n debyg y byddai’n cael ei wrthod pe derbynnid cais am drawsnewid safle masnachol yng nghanol y dref.

Cyfeiriodd Aelod wedyn at adran 2.23 yr adroddiad a gofynnodd sut y byddai Parc Eugene Cross yn dod o fewn y cynllun gan ei fod yn destun Trosglwyddiad Ased Gymunedol.

Dywedodd y Swyddog na fyddai’n gwanhau’r Trosglwyddiad Ased Gymunedol ond y byddai’n edrych ar y darlun cyffredinol yn nhermau’r nifer o bobl yng nghanol y dref ac yn creu gwell cysylltiadau o Barc Eugene Cross i ganol y dref i annog pobl i fynychu pan fyddant yn ymweld â gemau ac yn y blaen.

Cyfeiriodd Aelod at y cynlluniau creu lle a gynigiwyd ar gyfer Glynebwy a Thredegar a mynegodd bryder y cafodd ymgynghorwyr eu penodi dros nifer o flynyddoedd i ddatblygu gwahanol gynlluniau nad oedd erioed wedi dod i ffrwyth.

Esboniodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu fod angen llawer o waith er mwyn sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau’r dyfodol a bod angen cael ymgynghorwyr i sicrhau’r prosiectau hyn gan eu bod yn rhoi arbenigedd ac adnodd ychwanegol i’r Tîm Adfywio. Dywedodd fod y Tîm yn gyfyngedig ac mae’r ffaith fod adfywio yn dal i fynd rhagddo o fewn Blaenau Gwent gydag adeiladau’n dod yn ôl i ddefnydd yn yr hinsawdd bresennol yn dystiolaeth o’u gwaith rhagorol.

Yng nghyswllt sylw’r Aelod, esboniodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio fod y cynllun gweithredu yn nodi’r prosiectau allweddol a sut y cânt eu cyflawni, a chadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd y prosiectau.

Cyfeiriodd Aelod at y safleoedd strategol allweddol a fanylir yn adran 2.23 yr adroddiad a gofynnodd beth oedd y bwriad ar gyfer gorsaf reilffordd Glynebwy. Hefyd yn nhermau mynediad o safle’r

| | | |
|---|---|---|
| | Gweithfeydd i ganol y dref, dywedodd fod angen gwella rheolaeth y rheilffordd halio ac y dylai fod yn gweithio ar benwythnosau.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio yr ystyrir datblygiad pellach ar Orsaf Reilffordd Glynebwy fel rhan o'r cynllun o ran ei gwneud yn ganolbwynt ar gyfer yr ardal, a hefyd wella cysylltiadau i gerddwyr o safle'r Gweithfeydd i ganol y dref. Yng nghyswllt y rheilffordd halio yn gweithredu ar benwythnosau, dywedodd y Swyddog fod y gyllideb yn gyfyngedig ond os gellid ysgogi mwy o alw drwy wella cysylltiadau a datblygiadau yn y dyfodol ar safle'r Gweithfeydd, yna y gellid ystyried oriau agor hirach yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 7** | **<u>PARC CYFLOGAETH, RHODFA CALCH – ADRODDIAD DIWEDDARU CYNNYDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y Parc Cyflogaeth yn Rhodfa Calch, Safle'r Gweithfeydd, Glynebwy. Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnodd sylw at sefyllfa bresennol y prosiect fel y'i manylir yn adran 2.4 ymlaen.<br><br>Gofynnodd Aelod os y gwarentir cyllid Ewropeaidd yn sgil Brexit, ac os oedd dyddiad cau i wario'r arian.<br><br>Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog y cafodd y cyllid ei sicrhau a'i warantu gan Lywodraeth Cymru. Diwedd 2022 yw'r dyddiad targed ar gyfer cyflenwi'r cynllun ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo i sicrhau y cyflawnir hyn.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at adran 2.7 yr adroddiad a gofynnodd os byddai cyfle ar ôl cwblhau'r cynllun i'r Cyngor weithio gydag Ymddiriedolaeth y Meysydd Glo ar weithgaredd masnachol ac yn y blaen, a manteisio o unrhyw refeniw fyddai'n cael ei ysgogi o'r cynllun.<br><br>Dywedodd y Swyddog mai'r Cyngor sydd yn berchen y rhydd- | |

| | | |
|---|---|---|
| | ddaliad, fodd bynnag, gan y caiff adfer tir ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, byddai unrhyw arian a dderbyniwyd o incwm cyfalaf neu refeniw yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru. Yn nhermau'r cynllun ei hun mae Ymddiriedolaeth y Meysydd Glo yn cyfrannu cyllid sylweddol a chaiff unrhyw incwm a gynhyrchir ei gadw ganddynt. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor berthynas gadarnhaol iawn gyda'r Ymddiriedolaeth ar ôl gweithio ar brosiectau eraill a byddai'n parhau i weithio gyda nhw ar unrhyw gyfleoedd posibl a all godi ar ôl cyflenwi'r cynllun.<br><br>Dywedodd Aelod mai manteision y cynllun fyddai cyfleoedd swyddi a hyfforddiant, a hefyd arbenigedd yr Ymddiriedolaeth wrth sicrhau unrhyw gyfleoedd buddsoddi posibl. Holodd hefyd am gyfraniad pob parti sy'n ymwneud â'r cynllun.<br><br>Esboniodd y Swyddog y byddai'r cyfraniadau perthnasol yn dibynnu ar y gost derfynol. Fodd bynnag, yng nghyswllt y £2.58m o gyllid gan WEFO, byddai hyn yn cael ei rannu 50/509 gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r Ymddiriedolaeth yn cynnal y safle ar ôl cwblhau'r cynllun. Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda nhw yn nhermau marchnata ac yn y blaen i sicrhau fod unrhyw weithgareddau yn ategu gwaith Adfywio Blaenau Gwent yng nghyswllt hyfforddiant sgiliau a chymorth i fusnesau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi cynnwys yr adroddiad (Opsiwn 1). | |
| **No. 8** | **<u>CYNLLUN ARGYFWNG BWS (BES)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Adfywio a Datblygu.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg o gynnydd Cam 2 Cynllun Bus mewn ymateb i bandemig Covid-19 ac i ymrwymo i drefniadau mwy hirdymor i wneud y gwasanaeth bws yn fwy cynaliadwy ar draws Cymru.<br><br>Ers dechrau'r pandemig Covid, mae awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru a gweithredwyr wedi cydweithio i sicrhau parhau gwasanaethau bws, er y ffaith nad oes llawer yn cael eu defnyddio. Byddai cytundeb BES2 yn datblygu trefniadau tymor hirach gyda gweithredwyr, a hoffai Llywodraeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymru i hyn fod yn ei le ac wedi'i lofnodi gan bob Awdurdod Lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2021. Yn ogystal ag ymateb i Covid, byddai BES2 yn rhoi bloc adeiladu ar gyfer gwelliannau i'n trafnidiaeth gyhoeddus yn y dyfodol a hefyd ffurfioli ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithredwyr i adfer o'r pandemig Covid yn nhermau colli refeniw blwch tocynnau a chostau ychwanegol a gafwyd fel canlyniad i Covid. Dan y cytundeb, byddai'n ofynnol i weithredwyr ddarparu gwasanaethau bws i ateb anghenion lleol.. Dyddiad gorffen BES2 yw 31 Gorffennaf 2022 a dylai hyn fod yn ddigon o amser i adfer refeniw.<br><br>Byddai cytundeb BES2 yn rhoi sail gyfreithiol ar gyfer cyllido'r costau yn gysylltiedig gydag effaith Covid, yn cynnwys colli blwch tocynnau, dyblygu bysus oherwydd pellter cymdeithasol neu ddarparu gwasanaethau eraill lle mae gweithredwyr yn rhoi'r gorau iddynt a bod dal i angen y gwasanaethau. Byddai hyn yn berthnasol i wasanaethau oedd yn fasnachol cyn-Covid ac i wasanaethau tendr.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Gofynnodd Aelod pa gynlluniau sydd yn eu lle ar gyfer darparu llwybr bws i Ysbyty'r Faenor.<br><br>Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog fod trafodaethau'n parhau gyda'r Bwrdd Iechyd lleol, yn nhermau sut y gellid sicrhau trafnidiaeth i alluogi pobl i gyrraedd yr ysbyty o nifer o awdurdodau lleol eraill yn ogystal â Blaenau Gwent. Dim ond cyllid a chytundeb rhanbarthol i weithio ar welliannau pellach i'r system fysus y mae adroddiad BES2.<br><br>Cytunodd Aelod arall fod angen llwybr bws ar gyfer Ysbyty'r Faenor ond bod hefyd angen ail-lunio llwybrau bws i sicrhau mynediad cyflym a rhwydd i stadau diwydiannol ar gyfer pobl sy'n mynd i'r gwaith.<br><br>Cadarnhaodd y Swyddog fod hyn yn rhan o brosiect ar wahân sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd, gan weithio gyda'r trydydd sector a'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gynlluniau i gael pobl i'r gwaith. Byddai trefniadau BES2 hefyd yn cynnwys cyd-ddatblygu rhwydweithiau cyfeirio rhanbarthol gan awdurdodau lleol, gweithredwyr, Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru a byddai'r rhain yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a | |

| | | |
|---|---|---|
| | chenedlaethol ac yn helpu i lywio buddsoddiad mewn gwasanaethau bws ar gyfer y dyfodol a dan BES2 byddai awdurdodau lleol yn cael dylanwad dros ddatblygu'r Rhwydwaith Cyfeirio.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Blaenau Gwent yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi trefniadau BES2 fel rhan o ddull gweithredu rhanbarthol a Chymru gyfan (Opsiwn 1). | |
| **No. 9** | **BLAENRAGLEN GWAITH – 10 CHWEFROR 2021**<br><br>Cyflwynwyd y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd i'w gynnal ar 10 Chwefror 2021.<br><br>Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar y 'Truck Shop', Tredegar a dywedodd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth i ffordd fynediad yn cysylltu Stad Ddiwydiannol Stryd y Bont a Pharc Busnes Tredegar (safle ViTCC).<br><br>Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu y byddai'n cydlynu gyda'r Rheolwr Gwasanaeth a Datblygu parthed diweddariad.<br><br>Yng nghyswllt ffordd gyswllt rhwng Stad Ddiwydiannol Stryd y Bont a Pharc Busnes Tredegar, dywedodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio y gellid ystyried hyn fel rhan o'r Rhaglen TRI a'r Cynllun Creu Lle ar gyfer Tredegar.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at y cyhoeddiad diweddar y byddai TVR yn dechrau gwaith ar Stad Ddiwydiannol Rasa y mis hwn, a gofynnodd am wybodaeth am amserlenni ac yn y blaen.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu y cyflwynir adroddiad i Aelodau cyn gynted ag sydd modd.<br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad. | |